



PARATOI I OFALU

Graddau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chysylltiedig ag Iechyd

CHI SY’N BWYSIG

Gwnewch y gwahaniaeth mwyaf	3
Sgiliau a gwerthoedd allweddol	4

PROFFESIYNAU IECHYD

Nyrs Oedolion	6
Nyrs Plant	7
Nyrs Anableddau Dysgu	8
Nyrs Iechyd Meddwl	9
Bydwraig	10
Ymarferydd Gofal Llawdriniaethol (ODP)	11
Therapydd Galwedigaethol	12
Ffisiotherapydd	13

PARATOI I YMGEISIO

Gwella’ch cais	14
Pam PDC?	16
Ariannu eich astudiaethau	18
Derbyniadau	19
Bywyd myfyrwyr a chefnogaeth	20
Stori myfyriwr	21
Ein cyfleusterau	22
Rhestr wirio ymgeisio	23

PARATOI I OFALU

Darganfyddwch astudiaethau gofal iechyd yn
PDC: decymru.ac.uk/gofal-iechyd



MAE'N BRYD DEWIS LLE Y GALLWCH WNEUD Y GWAHANIAETH MWYAF



Mae yna lawer o broffesiynau gofal iechyd arbenigol, pob un yn gofyn am sgiliau a chryfderau gwahanol.

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu pa fath o berson sydd ei angen ar gyfer pob rôl, i'ch helpu i benderfynu pa lwybr i'w ddilyn a deall ble gallwch chi wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r rhai sydd angen eich gofal.

Trwy ganolbwyntio ar eich galluoedd a'ch profiad mewn perthynas â'r hyn sydd ei angen ar gyfer eich rôl ddewisol, bydd eich datganiad personol a'ch cais i astudio yn llawer cryfach. Byddwch yn gallu dangos bod gennych yr hyn sydd ei angen a gwneud eich cais y gorau y gall fod.

MAE PWY YDYCH CHI CYN BWYSICED Â'R HYN YDYCH CHI'N GWYBOD

Mae gan y GIG chwe gwerth allweddol, y mae angen i ymgeiswyr eu dangos wrth wneud cais am gwrs gofal iechyd. Bydd rhan fawr o'ch astudiaethau yn digwydd mewn ymarfer clinigol, felly mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn adlewyrchu ac yn cynnal y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnânt.

1

Cydweithio er budd cleifion: cleifion sy'n dod gyntaf ym mhopeth a wnawn.

2

Parch ac urddas: mae pob person yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn, boed hynny'n glaf, ei deulu neu ei ofalwyr.

3

Ymrwymiad i ansawdd gofal: rydym yn mynnu ansawdd ac yn ymdrechu i gael diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad y claf yn iawn bob tro.

4

Tosturi: mae hyn yn ganolog i'r gofal a ddarparwn, gan ymateb gyda dynoliaeth a charedigrwydd i boen, trallod, pryder neu angen pob person.

5

Gwella bywydau: rydym yn ymdrechu i wella iechyd a lles.

6

Mae pawb yn cyfrif: rydyn ni'n gwneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei gau allan, ei wahaniaethu yn ei erbyn na'i adael ar ôl.

Yn y llyfryn hwn fe welwch fod angen cryfderau a rhinweddau personol gwahanol ar gyfer gwahanol rolau gofal iechyd, ond mae gan bob un ohonynt y gwerthoedd craidd hyn yn gyffredin.

Felly i fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol effeithiol mewn unrhyw ddisgyblaeth, mae angen i chi gael eich cymell i helpu eraill, gallu cymryd cyfrifoldeb, bod yn weithiwr tîm, bod yn dda am wrando a chyfathrebu, parhau i ddysgu, bod ag agwedd gadarnhaol a bod yn ddibynadwy.



MAE PAWB YN CYFRIF

NYRS OEDOLION

Mae angen cyfuniad arbennig o dosturi a threfniadaeth ar nyrsys oedolion i ofalu am bobl a gwella ansawdd eu bywyd. Nid yw'n waith hawdd, felly bydd angen gwir ymrwymiad i helpu'r glasod ac oedolion gydag ystod o broblemau a heriau iechyd.

Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol, yn ogystal â'r gallu i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth a thrin pobl ag urddas a pharch.



MAE'N FATER TEULUOL

NYRS PLANT

Yn gofalu am fabanod newydd-anedig i'r glasoed, bydd angen i chi ymestyn eich meddylgarwch a'ch tosturi i ofalu am eu teuluoedd hefyd. Mae sgiliau gwranddo a chyfathrebu rhagorol yn hanfodol, er mwyn i chi allu cynnwys pawb yn y penderfyniadau a wnewch a llywio'r gofal a ddarperir gennych.

Gyda gwir fwynhad o weithio gyda phlant ac ymrwymiad i'w lles a'u datblygiad, gall nyrsys plant wneud gwahaniaeth nawr ac yn y dyfodol.



GOFALUS, TRUGAROG AC YMRWYMEDIG

NYRS ANABLEDDAU DYSGU

Mae angen ymrwymiad sylfaenol ar nyrsys anableddau dysgu i gynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pobl agored i niwed, ac i hyrwyddo hawliau'r rhai sydd yn eu gofal.

Mae hwn yn ofal iechyd arbenigol sy'n gofyn eich bod yn dod i adnabod y bobl yn eich gofal sy'n cael eu heffeithio gan anableddau dysgu, fel y gallwch chi, gyda thosturi a chreadigrwydd, deilwra'ch cefnogaeth i'w helpu i fyw bywyd annibynnol a boddhaus.

A photograph of a young woman with dark hair and a red top, and an elderly woman with white hair and glasses, both laughing heartily. They are in a kitchen with a window in the background.

GOFAL CYFLAWN

NYRS IECHYD MEDDWL

Mae angen tosturi, gofal a pharch i helpu pobl pan fyddant ar eu mwyaf bregus. Mae'r gallu i ymgysylltu â'r rhai yn eich gofal yn hanfodol, o blant a phobl ifanc i gleifion hŷn, yn ogystal â'u teuluoedd.

Mae meithrin perthnasoedd yn allweddol i helpu cleifion i fyw mor annibynnol â phosibl, boed hynny'n eu helpu i reoli eu cyflwr a hybu adferiad, neu'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill i gydgyssylltu gofal.

A close-up photograph of a woman with brown hair, wearing a blue medical uniform, listening intently with a wooden stethoscope to a patient whose arm is visible in the foreground. The background is blurred.

TAITH SY’N NEWID BYWYD

BYDWRAIG

Bydd amynedd, y reddf i ofalu am eraill a sgiliau arsylwi da o fudd i chi fel bydwraig. Ond eich cryfder emosiynol a meddyliol fydd yn eich gwneud chi’n wych.

Mae PDC wedi’i chymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, felly byddwch yn graddio yn bydwraig gymwys. Byddwn yn eich cefnogi, yn eich herio ac yn eich arwain, gan wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod yn barod i gynnig gofal arbenigol i’r rhai a fydd yn dibynnu arno.

A hand in a white glove holds a pair of surgical scissors. The background is a blurred operating room with surgeons in blue scrubs and masks.

DIGYNNWRF A DIGYFFRO

YMARFERYDD GOFAL LLAWDRINIAETHOL (ODP)

Mae cefnogaeth, diogelwch a lles cleifion yn ganolog i'r rôl hon. Mae'n gofyn am bobl sy'n dda am gyfathrebu ac sy'n gallu darparu gofal parchus.

Mae arbenigwyr y theatr lawdriniaeth, ODP, yn gweithio ar y cyd ag anesthetyddion a llawfeddygon i gefnogi cleifion a theuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth. Mae'r gallu i ymateb yn dda mewn sefyllfaoedd anodd yn allweddol, gyda sgiliau arsylwi cryf i ragweld anghenion eich cleifion a'ch cydweithwyr.



GWNEWCH WAHANIAETH I BETHAU BEUNYDDIOL, BOB DYDD

THERAPYDD GALWEDIGAETHOL

Mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda phobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud gweithgareddau, galwedigaethau ystyrion bob dydd oherwydd salwch personol neu anabledd, neu oherwydd rhwystrau amgylcheddol fel digartrefedd. Maent yn gweithio gyda phobl i fynd i'r afael â heriau a gallent, er enghraifft, eu cefnogi i ddyysgu yn yr ysgol, mynd i'r gwaith, cymryd rhan mewn hobiau neu frwsio eu dannedd.

Mae awydd i wrando, clywed a galluogi pobl i fyw eu bywydau gorau yn hanfodol mewn therapi galwedigaethol.



GYDA CHI BOB CAM O'R FFORDD

FFISIOTHERAPYDD

Mae ffisiotherapyddion yno i fod yn gefnogol ac yn galonogol yn ystod taith pob person i gyrraedd eu potensial. Mae angen sgiliau cyfathrebu a phobl rhagorol i egluro cyflyrau a thriniaethau, ac mae angen sgiliau cynllunio cryf i'w cyflawni.

Y tu hwnt i'r agwedd ymarferol mae ffisiotherapyddion yn gyfathrebwyr tosturiol ond yn gymhelliant rhagweithiol, sy'n galluogi unigolion i ffynnu a chyflawni'r hyn sy'n ymddangos yn amhosibl.

GWELLA'CH CAIS

Mae'r datganiad personol yn agwedd allweddol ar y broses ddethol; dyma'ch cyfle i esbonio i ni pam eich bod am wneud y cwrs a ddewiswyd gennych, beth sydd wedi'ch ysbrydoli i ddewis y rôl honno, ac i ddangos y sgiliau a'r rhinweddau sydd gennych sy'n addas ar gyfer y rôl honno.

DYMA RHAI AWGRYMIADAU I WNEUD EICH CAIS A DATGANIAD PERSONOL YN GRYFACH:



Ymchwil a pharatoi – rydym yn cynghori ymgeiswyr yn gryf i ganolbwyntio ar ddisgyblaeth ddewisol.



Dangoswch fewnwelediad a dealltwriaeth glir o'ch dewis broffesiwn a sut rydych chi'n addas ar gyfer hyn.



Darparwch dystiolaeth sy'n dangos bod gennych ddealltwriaeth glir o'r cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano.



Darbwyllwch y rhai sy'n adolygu eich cais bod eich cymhellion dros astudio cwrs penodol yn seiliedig ar ymchwil drylwyr a gwybodaeth o'r pwnc.



Dangoswch eich bod yn deall gwerthoedd allweddol y GIG a'ch bod wedi ymrwymo iddynt (gweler tudalen 4).



Cynhwyswch fanylion sy'n berthnasol i'ch cais, ee, hyfforddiant blaenorol neu sgiliau trosglwyddadwy. Os ydych wedi astudio neu ddechrau cwrs gyda ni o'r blaen, rhaid i chi nodi hyn ar eich cais hefyd.



Rydym yn disgwyl eich bod wedi mynychu Diwrnod Agored PDC cyn cyflwyno'ch cais.

EWCH AMDANI DYMA SUT FYDD PDC YN EICH HELPU I WNEUD Y GORAU O'CH POTENSIAL





1

Mae ein graddedigion yn barod ar gyfer bywyd go iawn: trwy ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gweithle, byddwch chi'n gwybod sut i ofalu am y rhai sydd angen eich cefnogaeth, ac yn meddu ar yr hyfforddiant cywir i gofrestru fel gweithiwr proffesiynol.

2

Byddwch yn rhan o gymuned amrywiol o ddysgwyr, sydd i gyd yn dod â'u sgiliau, cryfderau a phrofiadau i greu amgylchedd dysgu cyfoethog na fyddwch chi'n dod o hyd iddo yn unman arall.

3



Cyfleusterau anhygoel ar y campws: paratowch ar gyfer eich lleoliad gyda dysgu ymarferol mewn man diogel.

4



Astudio fforddiadwy gyda bwrsariaethau ffioedd dysgu, ynghyd â grantiau i'ch cefnogi tra byddwch ar leoliad.

5



Cefnogaeth eithriadol gan ymarferwyr profiadol, pobl a fydd yn eich helpu i adeiladu ar eich cryfderau, dysgu sgiliau newydd a dechrau'r yrfa rydych chi wedi breuddwydio amdani erioed.

PEIDIWCH Â GADAEI I ARIAN EICH RHWYSTRO AR Y FFORDD

Mae'r angen am weithwyr gofal iechyd proffesiynol medrus yn fwy nag erioed. Dyna pam mae lleoedd ar ein cyrsiau gofal iechyd yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Mae'r pecyn cyllid hwn gan y GIG yn cwmpasu holl ffioedd eich cwrs, yn ogystal â chynnig grantiau, bwrsariaethau a benthyciadau i helpu gyda chostau byw a theithio tra byddwch yn astudio.

Er mwyn derbyn y cyllid hwn, rhaid i fyfyrwyr ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cwblhau eu gradd. Gallwch ddarganfod mwy ar dudalennau arian myfyrwyr ein gwefan, neu ar wefan GIG Cymru.

Nodwch y gallwch ddewis pecynnau ariannu myfyrwyr safonol yn lle cymorth y GIG, os byddai'n well gennych wneud hynny.

Evch i'n gwefan am fanylion yr holl ffioedd a'r opsiynau ariannu ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd: **southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid/gofal-iechyd**



RYDYCH CHI'N FWY NA'CH GRADDAU



Yn PDC, rydym bob amser wedi ystyried eich cais cyfan.

Rydym yn edrych y tu hwnt i'ch graddau ac yn gweld y person y tu ôl i'r cais. Rydym yn ystyried eich datganiad personol, eich geirda a'ch graddau. Mae hyn yn ein helpu i greu darlun o'r math o fyfyrwr y byddwch chi a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y gallwch chi ddod.

Rydym yn eich annog i ddweud wrthym am eich sgiliau, cryfderau a phrofiadau sy'n berthnasol i'ch rôl ddewisol fel rhan o'ch datganiad personol pan fyddwch yn gwneud cais. Fe welwch ragor o gyngor ar dudalen 14.

BYWYD MYFYRWYR A CHEFNOGAETH

Yn PDC, byddwch yn rhan o amgylchedd cefnogol ar gyfer astudio a byw, lle mae myfyrwyr newydd yn teimlo'n gartrefol yn gyflym.

Rydyn ni'n gwybod nad yw'r gwaith y bydd yn rhaid i chi ei wneud yn hawdd, felly rydyn ni yma i chi bob amser. Mae yna rwydwaith cefnogi o staff profiadol, tiwtor personol, a thîm cwrs a lleoliad, sydd i gyd â pholisi cymorth drws agored.

Mae gan PDC gymuned amrywiol a chroesawgar, felly p'un a ydych chi newydd orffen eich Lefel A neu'n dychwelyd i addysg, byddwch gyda phobl yn union fel chi, sy'n rhannu eich diddordebau, eich credoau a'ch cymhellion.



RHYS PERRY

BSc (Anrh) Nyrsio (Oedolion)



“Mae'r gefnogaeth a gewch yn y Brifysgol hon heb ei hail ac mae'r cyfleusterau sydd ar gael o'r radd flaenaf.

Mae'r ymagwedd gyfunol rhwng theori a sgiliau ymarferol yn golygu fy mod wedi gallu rhoi popeth rydw i wedi'i ddysgu mewn ystafell ddosbarth ar waith yn y Ganolfan Efelychu ac allan mewn amgylchedd clinigol.”

YMARFER SY’N GWNEUD YR YMARFERWYR GORAU

Mae myfyrwyr yn paratoui ar gyfer ymarfer clinigol yn ein Canolfan Efelychu ar y campws. Mae’n ofod diogel lle gallwch ddysgu’r sgiliau y bydd eu hangen arnoch yn y gweithle.

Mae’r Ganolfan yn efelychu ysbytai a lleoliadau cymunedol i ddarparu hyfforddiant ymarferol mewn senarios chwarae rôl. Yma, byddwch chi’n mynd i’r afael â phopeth o sgiliau clinigol hanfodol i senarios clinigol cymhleth, aml-ddisgyblaethol.

Byddwch yn defnyddio’r un offer y byddwch chi’n dod o hyd iddo mewn lleoliadau gofal iechyd, ac yn dibynnu ar y senario, byddwch chi’n gweithio gydag actorion ac efelychwyr cleifion sy’n dynwared ymateb y corff i salwch, gofal a thriniaeth.



RHESTR WIRIO YMGEISIO

Mae ymchwil a pharatoi yn allweddol i gais llwyddiannus, felly dyma restr wirio:



Ymchwiliwch i'r proffesiynau a'r cyrsiau sydd ar gael.



Mynychwch Ddiwrnod Agored yn PDC.



Dewiswch eich disgyblaeth.



Penderfynwch a ydych am wneud cais am becyn ariannu'r GIG.



Sicrhewch bod eich datganiad personol yn cyfleu gwerthoedd y GIG, yn ogystal â'ch dealltwriaeth o'r rôl rydych chi'n ymgeisio amdani a'ch addasrwydd ar ei chyfer.



Peidiwch â gwneud cais am le gohiriedig.



Cynhwyswch eirda gyda'ch cais, nid manylion y canolwr yn unig.



Gwnewch gais am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn dilyn gwahoddiad gennym i wneud hynny.

CYRSIAU

BSc (Anrh) Nyrsio (Oedolion)

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Nyrsio (Plentyn)

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Nyrsio (Anableddau Dysgu)

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Nyrsio (Iechyd Meddwl)

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Bydwreigiaeth

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Ymarfer Gofal Llawdriniaethol (YGLL)

Astudio llawn amser – 3 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol

Astudio rhan amser – 4 blynedd i gymhwyso

BSc (Anrh) Ffisiotherapi

Astudio rhan amser – 4 blynedd i gymhwyso

Mae llwybr rhan-amser hyblyg i astudio Nyrsio dros bedair blynedd ar gael i ymgeiswyr a gyflogir ar hyn o bryd fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.



**DARGANFYDDWCH SUT I HYFFORDDI AR
GYFER EICH YFORY, HEDDIW.**

[DECYMRU.AC.UK/GOFAL-IECHYD](https://decymru.ac.uk/gofal-iechyd)

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar yr adeg o argraffu (Mehefin 2022), ond gall fod yn destun newid. I weld y wybodaeth ddiweddaraf, ffoniwch neu ewch i'n gwefan.

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Cofrestru: 1140312.